26.01.2023

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
07774 888145

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# A allwch chi gystadlu yn erbyn cewri chwaraeon Cymru?

Bydd gwobrau ariannol mawr yn y fantol wrth i ffans chwaraeon fynd benben â rhai o gewri campau Cymru mewn cyfres cwis newydd ar S4C.

Yn y gyfres cwis **Pen/Campwyr**, sydd yn cael ei gyflwyno gan Jason Mohammad, bydd tri chystadleuydd yn ceisio ateb gymaint o gwestiynau yn gywir â phosib mewn rownd o gwestiynau cyflym. Yna, byddan nhw'n wynebu un o dri arwr byd y campau mewn cyfres o heriau amrywiol, gan geisio ychwanegu arian i'w stash cash.

Y tri arwr fydd yn gwrthwynebu ein hymgeiswyr gwybodus yw:

Natasha Harding - ymosodwr ysbrydoledig tîm pêl-droed Reading a Chymru, sydd â record anhygoel o 26 gôl mewn 103 o ymddangosiadau yn y crys coch;

Huw Jack Brassington – cyn triathletwr tîm GB, rhedwr mynyddoedd a rhedwr marathonau ultra, sydd wedi dangos ei ddygnwch a dyfalbarhad aruthrol mewn sawl antur dros y blynyddoedd;

James Hook - y cyn-faswr rygbi chwedlonol a serennodd dros y Gweilch, Cymru a Llewod Prydain ac Iwerddon mewn gyrfa ddisglair, gan ennill 81 cap rhyngwladol.

Dywedodd James Hook: "Dw i'n hyfforddi gyda'r Gweilch a Chlwb Rygbi Abertawe ar hyn o bryd, felly mi roedd hyn yn newid mawr i mi. Ond mae'n rhaglen wych ac mi oedd yr heriau yn anodd ond yn hwyl. Roedd yr heriau golff a chiciau o'r smotyn yn lot o hwyl, ond mi oedd y peiriant rhwyfo a'r beic wat yn heriol iawn. Fe wnes i ddigon o sesiynau beic wat yn ystod fy ngyrfa fel chwaraewr ac mi ydw i wedi ceisio osgoi nhw ers i mi ymddeol, felly roedd o'n anodd iawn!

"Roedd y cystadleuwyr yn wych, ac mi o'n i'n teimlo bach yn ddrwg am ennill rhai o'r heriau, ond dyna oedd fy swydd. Roeddwn i'n teimlo tipyn fel Anne Hegerty o The Chase!

"Roedd yn lot o hwyl fel cyflwynydd ac mi oedd e'n helpu fi gyda fy Nghymraeg. Nes i fwynhau cymryd rhan yn Iaith ar Daith llynedd, ond dw i ddim yn cael y cyfle i siarad Cymraeg yn aml, felly roedd hwn yn gyfle da i ymarfer mwy. Roedd o'n rhaglen dda i fod yn rhan ohono a dw i'n siŵr fydd y gwylwyr gartref yn ei mwynhau."

**Pen/Campwyr**
**Nos Fercher 8 Chwefror, 8.25, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Nimble Productions ar gyfer S4C**

26.01.2023

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Could you take on Wales' sporting giants and win some cash?

There will be big cash prizes up for grabs when Wales' sporting superfans go head-to-head with some Welsh sporting giants in a new S4C quiz series.

In **Pen/Campwyr** (Champions), which is hosted by Jason Mohammad, three contestants will aim to answer as many sports-themed questions correctly as possible in a quickfire quiz round.

They will then pit themselves against one of three sports legends in a series of physical challenges testing their skill, endurance and power, with the aim of adding more money to their cash stash.

The top two competitors will then compete in a final round of questions, with the person answering most questions correctly taking home the final cash total.

The three champions who will be going up against the contestants are:

Natasha Harding – inspirational Wales and Reading striker, who has scored a magnificent 26 goals in 103 international appearances in the red shirt.

Huw Jack Brassington – former GB triathlete, ultra-marathon runner and serial conqueror of extreme challenges, who has proved his remarkable endurance in a host of adventures.

James Hook – legendary former rugby fly-half who starred for Ospreys, Perpignan and Gloucester and won 81 international caps for Wales and British and Irish Lions during a stellar career.

James Hook said: "I'm coaching at the Ospreys and Swansea RFC at the moment, so this was a bit of a change. But it's a really good show, a good concept and the challenges were pretty taxing but enjoyable. The penalty shootout and the golf challenges were a lot of fun, but the rower and the watt bike were more taxing. I did plenty of watt bike sessions during my playing career but I've tried to avoid them since I retired, so that was tough!

"All the contestants were brilliant, and I felt bad winning a couple of challenges but that was my job I suppose. I felt a bit like Anne Hegerty from The Chase!

"Jason was great fun presenting the show as well, and he was helping me a bit with my Welsh. I did Iaith ar Daith last year which I really enjoyed, but I'm not immersed in the language so it was good to brush up on it some more. It was a really enjoyable show to be part of and I'm sure it'll be a lot of fun for the viewers at home."

**Pen/Campwyr**
**Wednesday 8 February, 8.25, S4C**
**English Subtitles**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Nimble Production for S4C**